



Cyngor Celfyddydau Cymru

## Datganiad Polisi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Datblygu Cynaliadwy)

Hydref 2016



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

# Datganiad Polisi Cyngor Celfyddydau Cymru am Ddatblygu Cynaliadwy

## Cwmpas

Disgrifia'r datganiad polisi hwn sut y gweithreda Cyngor Celfyddydau Cymru ei weledigaeth am ddatblygu a chynnal Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd a llesiant y genedl yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015.

Nod y ddeddfwriaeth hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a chryfhau trefniadau llywodraethu yn y sector cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i fuddsoddi yn nyfodol pobl Cymru a sicrhau bod ei holl waith a'i bolisiau sefydliadol yn wydn.

Cymerwn y canlynol i ystyriaeth ym mhob dim a wnawn:

- Penderfynu dinesydd-ganolog
- Gweithredu mewn cyfyngiadau amgylcheddol
- Meddwl am yr hirdymor a chynllunio ar ei gyfer
- Cydnabod effaith ein gwaith yng nghyd-destun Cymru a'r byd

Atega'r polisi hwn y ddogfen, YSBRYDOLI, strategaeth gelfyddydol Cyngor Celfyddydau Cymru. Wrth wraidd y strategaeth hon mae rhagoriaeth ac arloesedd yn y celfyddydau ac annog rhagor o bobl i fwynhau'r celfyddydau yn eu holl amrywiaeth a chymryd rhan ynddynt.

Cymeradwywyd y Polisi hwn gan ein Cyngor yn Hydref 2016 a chaiff ei adolygu'n flynyddol wedyn.

## Cefndir

Yn Ebrill 2015 pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a ddaeth yn gyfraith gwlad. Nod y ddeddfwriaeth hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a chryfhau trefniadau llywodraethu yn y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn cymryd i ystyriaeth yr effaith y gallai'r penderfyniadau hynny gael ar fywyd pobl Cymru (a gweddill y byd) yn y dyfodol.

Gesyd y ddeddfwriaeth ddyletswydd statudol ar gyrrff cyhoeddus Cymru - y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn un ohonynt - i fabwysiadu datblygu cynaliadwy'n egwyddor drefnu ganolog i'r broses benderfynu ar bopeth sy'n ymwneud â'r sefydliad. Rhaid inni hefyd ddarparu tystiolaeth ar sut y gweithredwn hyn yn ymarferol i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru.

I sicrhau bod pob corff cyhoeddus perthnasol yn gweithio yn ôl yr un weledigaeth, gesyd y Ddeddf saith Amcan Llesiant. Cyfeiria un ohonynt yn benodol at y celfyddydau a diwylliant – “Cymru lle mae ei diwylliant yn fywiog a'r Gymraeg yn ffynnu”.

Dyma'r 7 amcan allweddol i wella llesiant Cymru:

1. Cymru Ffyniannus
2. Cymru Wydn
3. Cymru Iachach
4. Cymru Fwy Cyfartal
5. Cymru y Cymunedau Cydlynus
6. Cymru lle mae Diwylliant yn Fywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu
7. Cymru â Chyfrifoldeb Byd-eang

Amlinella'r Ddeddf hefyd 5 ffordd y bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy a fydd yn ein caniatáu i gydweithio'n well, osgoi camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â'r her hirdymor sy'n ein hwynebu. Dyma hwy:

1. **Yr hirdymor** – edrych ymlaen er mwyn rhagweld canlyniad ac effaith gweithredoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
2. **Atal** – ceisio gwneud llai o niwed ac atal problemau
3. **Integreiddio** – dod o hyd i well ffyrdd o integreiddio gwasanaethau a datblygiadau i fwyafu eu heffaith
4. **Cydweithio** – gweithio gyda'n gilydd i fwyafu adnoddau a chyflawni rhagor
5. **Ymwneud** – gan dynnu i mewn dderbynwyr y gweithredoedd yng nghamau cynllunio'r gweithredoedd hynny gan sicrhau y clywir eu llais ac y gwrandewir arno

Gwedda swyddogaeth gadarnhaol y gall y celfyddydau ymgymryd â hi ym mywyd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru yn dda â'r amcanion llesiant. Gallai'r celfyddydau a chreadigrwydd gyffwrdd â phob agwedd ar bolisi cyhoeddus. O ymgysylltu cymunedol i gysylltiadau rhyngwladol; o'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol; celfyddyd gyhoeddus i adfywio canol y dref – cynnig y celfyddydau ystyr, dilysrwydd a mwynhad. Mae'r celfyddydau yn cynnal a chreu swyddi, cyfoethogi gwasanaethau addysg, dod â phobl at ei gilydd a gwella ansawdd ein bywyd. Sector celfyddydol ffyniannus sy'n ymroddedig i ragoriaeth ac arloesedd a gyfranna at lesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

I sicrhau y cwrddwn â'r her, cymhwyswn yr egwyddorion canlynol:

- Mabwysiadu datblygu cynaliadwy yn un o egwyddorion trefnu canolog y Cyngor gan newid y diwylliant gwaith yn un sy'n gweithio ar sail meddwl am yr hirdymor ac ystyried y costau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach o bob dim a wnawn

- Arweinyddiaeth glir i wella ein cynllunio a'n meddwl strategol ac arloesi yn y maes hwnnw; rhoi llesiant pobl Cymru, yn awr ac yn y dyfodol, wrth wraidd pob un o'n penderfyniadau
- Ymrwymiad gan bob aelod o staff y Cyngor ar draws y sefydliad i gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy at ei waith drwy ddatblygu ymarferion gweithio doethach
- Cymryd i ystyriaeth ystod lawn yr effeithiau a'r materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ymhob dim a wnawn, seiliedig ar dystiolaeth dda
- Ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chynyddu ymgysylltu ac ymgyfranogi gan y gymuned
- Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill

Cefnogir gwasanaethau Cyngor Celfyddydau Cymru gan gynllun camau gweithredu corfforaethol Fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hon yn ddogfen ategol a esbonia ystyr y Ddeddf i'r Cyngor a'i waith gan ddarparu cyd-destun i'r amcanion corfforaethol a'r cynlluniau gwaith dros y pum mlynedd. Llunnir ac adolygir y cynllun cyflawni'r camau gweithredu yn flynyddol.

## Ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy

Ystyriwn fod trin yn gyfreithlon a chywir genedlaethau'r dyfodol yn ddyletswydd sylfaenol a chefnogwn yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy uchod a glynwn wrthynt. Disgwylir i'n staff wneud pob dim sy'n angenrheidiol i sicrhau ein cydymffurfedd â'r Ddeddf a dilyn ein gweithdrefnau Datblygu Cynaliadwy drwy'r 5 ffordd o weithio.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymroddedig i gydymffurfio'n llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015 a monitrir gwaith y Cyngor yn chwarterol gan y Grŵp Monitro Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Cyflwynir adroddiad blynyddol am Ddatblygu Cynaliadwy gerbron y Cyngor a chyhoeddir yr adroddiad a chynhwysir crynodeb o'r ddogfen hon yng Nghyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Cysylltu

Dylid anfon unrhyw gwestiynau am ddatblygu cynaliadwy neu ymholiadau am wybodaeth yn y lle cyntaf at [gwybodaeth@celf.cymru](mailto:gwybodaeth@celf.cymru) gan nodi eu bod at sylw Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio.